# PWYLLGOR SAFONAU
# CYNGOR GWYNEDD

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# 2010/2011

DRAFFT

# RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD

**John P Pollard**
**Cadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd**

DRAFFT

# RHAGAIR GAN Y SWYDDOG MONITRO

Hanfod ennill a chynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yng ngweithgaredd bywyd cyhoeddus ydi sicrhau safonau uchel o ymddygiad ymysg y rhai sy'n dal swyddi cyhoeddus. Yn hyn, mae Pwyllgor Safonau cadarn a gweithgar yn chwarae rhan allweddol.

Mae'r adroddiad blynyddol yma yn cyflwyno'r gwaith gwerthfawr mae Pwyllgor Safonau Gwynedd yn ei gyflawni er mwyn cefnogi'r fframwaith moesegol a hybu safonau ymddygiad uchel gan gynghorwyr sir ac aelodau cynghorau tref a chymuned y sir.

Yn ystod y flwyddyn mae'r Pwyllgor wedi adeiladu ar y rhaglen waith a sefydlodd yn 2010 gan roi sylw i'w weithdrefnau ei hun, gweithdrefnau a roddwyd prawf arnynt wrth i'r Pwyllgor gynnal ei wrandawiad cyntaf i achos yn erbyn cynghorydd. Bu hefyd yn datblygu hyfforddiant ar y cod ymddygiad, darpariaeth a ddaw yn anghenraid yn y flwyddyn i ddod wrth i awdurdodau lleol edrych ymlaen at etholiadau a newid posib yn eu haelodaeth.

Mae'n debyg hefyd y gwelwn newid yn aelodaeth y Pwyllgor Safonau yn ystod y misoedd nesaf o ganlyniad i'r etholiadau a'r ffaith fod rhai o'r aelodau yn nesáu at ddiwedd eu tymor ar y Pwyllgor. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i gydnabod cyfraniad clodwiw Cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor, rhai ohonynt wedi gwasanaethu am yn agos i 10 mlynedd. Mae'r Pwyllgor ar sylfaen gadarn i edrych ymlaen at gyflawni ei ddyletswyddau statudol dros y blynyddoedd i ddod.

Dilys A Philips
Swyddog Monitro
Cyngor Gwynedd

DRAFT

# AELODAU’R PWYLLGOR

Er bod y Pwyllgor Safonau yn un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd, mae’n cynnwys mwyafrif o aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â’r Cyngor neu lywodraeth leol (‘Aelodau Annibynnol’). Mae hefyd yn cynnwys aelod sy’n cynrychioli buddiannau cynghorau tref/cymuned (‘Aelod Pwyllgor Cymunedol’), yn ogystal â thri aelod etholedig o Gyngor Gwynedd.

## Aelodau Annibynnol

**Gwilym Ellis Evans**



Mae Gwilym yn byw yn Nolgellau lle y bu’n rhedeg busnes modurdy am bron i 40 mlynedd. Mae wedi gwasanaethu ar sawl tribiwnlys, yn cynnwys Tribiwnlysoedd Diwydiannol ac Apeliadau Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae’n gwasanaethu ar Dribiwnlys Apêl Prisio Gogledd Cymru ar hyn o bryd. Mae hefyd yn Gadeirydd CAB Gwynedd a De Môn ac yn gwasanaethu ar Bwyllgor Ymgynghorol CAB Meirionnydd. Mae hefyd yn aelod o Gwrp Lliwio Partneriaeth Economeg Gwynedd ac yn Ymddiriedolwr Age Concern Gwynedd a Môn.

**Malcolm Jones**



Wedi ei eni a’i fagu yng Nghaeathro ger Caernarfon fe ddilynodd Malcolm brentisiaeth fel ‘toolmaker’ yn Saunders Roe, ym Miwmares cyn ymuno â’r Gwasanaeth Tan yn 1970, lle bu’n gweithio tan 1997. Ar ôl ymddeol ymunodd â’r fainc fel Ynad Heddwch. Mae wedi bod yn briod am un flynedd a deugain hefo Jane, gyda dau o blant , mae hefyd yn daid i ddau. Mae’n hoff o ddilyn pêl droed, garddio, darllen ac yn aelod ac ysgrifennydd y gynghrair darts lleol ers deg mlynedd ar hugain. Mae hefyd yn Warden y Bobl ym Mhlwyf Llanbeblig.

**John P Pollard**



Yn byw yn Llanllyfni, mae John yn gweithio fel Peiriannydd Adeiladau Siartredig i Cadw, Adran Treftadaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ers deng mlynedd bellach, mae wedi gwasanaethu fel Ynad Heddwch ar Fainc Gwynedd ac mae ganddo brofiad helaeth ac eang o wasanaethu yn y Sector Gyhoeddus a’r Sector Wirfoddol, gan gynnwys fel Aelod o Fwrdd Rheoli a chyn-gadeirydd Cymdeithas Tai Eryri, Aelod o gorff Llywodraethol Ysgol Dyffryn Nantlle, Arolygydd Lleyg Ysgolion Cofrestredig ESTYN, Aelod o Banel Apeliadau addysg, ymddiriedolwr elusen Cartref Bontnewydd, Ymddiriedolwr a Chyfarwyddwr gwasanaeth elusennol Cyngor ar Bopeth De Môn a Gwynedd a Chyfarwyddwr a Chadeirydd cyntaf CYWAITH Cyf - cwmni adfywio lleol.

DRAFT

**Samindre (Sam) W. Soysa**



Mae Sam yn byw yn Harlech ac yn gweithio fel Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch yng Ngogledd Cymru. Mae wedi gweithio mewn nifer o uwch swyddi rheolaethol a busnes dros yr 20 mlynedd diwethaf, gan gynnwys saith mlynedd gyda Gweinyddiaeth Ynni Seland Newydd. Mae'n is-gadeirydd ac ymddiriedolwr/cyfarwyddwr C.A.B. Gwynedd a De Ynys Môn ac yn gwasanaethu ar Bwyllgor Ymgynghorol C.A.B. Meirionnydd. Mae hefyd yn gwasanaethu fel aelod annibynnol ar Bwyllgorau Safonau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**Gwyn Williams**



Yn byw ym Methel, ger Caernarfon, mae Gwyn yn gynhyrchydd/cyfarwyddwr teledu profiadol, wedi gweithio yn y diwydiant teledu ers 25 mlynedd. Mae o wedi bod yn gyfarwyddwr a rheolwr ar dri chwmni yn y maes cyfryngau. Yn ddarlledwr cyson ar Radio Cymru, mae o wedi cyflwyno nifer o raglenni ac yn adolygydd papurau rheolaidd. Yn enedigol o Wynedd mae Gwyn wedi byw yn Lloegr a Chaerdydd cyn dychwelyd i Wynedd i fagu teulu.

DRAFT

## Aelod Pwyllgor Cymunedol

**Cynghorydd David Clay**



Mae David wedi bod yn aelod etholedig o Gyngor Tref Abermaw ers 25 mlynedd ac wedi bod yn gadeirydd ar bedwar achlysur gwahanol. Ar hyn o bryd mae'n gadeirydd Pwyllgor Ardal Meirionnydd Un Llais Cymru. Cyn ymddeol bu'n cadw gwesty yn Abermaw am 30 mlynedd ac 'roedd yn aelod gweithgar o Gyngor Twristiaeth Canolbarth Cymru ac yn Gyfarwyddwr Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru.

## Aelodau Cyngor Gwynedd

**Cynghorydd Steven Churchman (aelod hyd at fis Mai 2011)**



Mae Stephen yn aelod o Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol ac yn cynrychioli Dolbenmaen. Bu'n gyflogedig yn y diwydiant rheilffordd fel peiriannydd sifil ac fel archwilydd. Mae'n awr yn rhedeg shop fechan yng Ngarndolbenmaen lle mae hefyd yn gwasanaethu fel Is-bostfeistr. Bu'n gwasanaethu fel Cynghorydd Bwrdeistrefol yn Llundain am naw mlynedd cyn cael ei ethol yn Aelod o Gyngor Gwynedd yn 2004. Mae ei ddiddordebau fel Cynghorydd yn canolbwyntio ar faterion peirianyddol. Mae hefyd yn gwasanaethu fel Llywodraethwr Ysgol, bron yn ddi-dor ers 1987.

**Cynghorydd Margaret Griffith**



Mae Margaret yn aelod o grŵp Plaid Cymru ac wedi cynrychioli ward Llanystumdwy ar Gyngor Gwynedd ers 1995. Yn ystod y cyfnod hwn bu'n aelod o amrywiol bwyllgorau a gweithgorau. Mae hefyd wedi cynrychioli'r Cyngor ar nifer o gyrff allanol megis yr Awdurdod Tân.

**Cynghorydd Keith Greenly Jones**



Mae Keith yn aelod o'r Grŵp Llafur ac wedi cynrychioli ward Bangor Marchog ers 1995. Wedi ei eni a'i fagu ym Mangor, bu'n gweithio am dros 30 mlynedd yn y Gwasanaeth Ambiwlans. Mae hefyd yn Llywodraethwr Ysgol ac yn aelod o'r Grŵp Cymdeithas Llongau'r Byd.

DRAFT

**Cynghorydd Eryl Jones-Williams (aelod ers Mai 2011)**



Mae Eryl yn newyddiadurwr llawrydd ac wedi cynrychioli Dyffryn Ardudwy a Thalybont ar Gyngor Gwynedd ers 2008, mae wedi gwasanaethu fel Cadeirydd, Maer a Chynghorydd Tref a Chymuned.

Mae'n chwarae rhan blaenllaw yn hawliau'r anabl ac mae'n Is-gadeirydd Grŵp Mynediad Meirionnydd yn ogystal â aelod o Fforwm Mynediad De Eryri a Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr. Ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd Pwyllgor Trwyddedu Canolog Gwynedd, mae ganddo brofiad yn y maes gan iddo ddal trwydded ei hun.

Bu'n Ganolwr peldroed ac mae'n chwarae golff yn Harlech a Dolgellau.

DRAFT

# GWAITH Y PWYLLGOR

Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau a'u cynorthwyo i gadw at y Cod Ymddygiad.  Mae'n gyfrifol am wneud hyn ymysg aelodau Cyngor Gwynedd a chynghorau cymuned a thref y sir.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am ystyried a phenderfynu ar gwynion a gyfeirir ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod aelodau wedi torri'r Cod Ymddygiad.

Mae hefyd yn ystyried ceisiadau a wneir gan aelodau am ollyngiadau i'w galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau er bod ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu o dan y Cod.

Yn ystod y flwyddyn ychwanegwyd Polisi Rhoddion a Lletygarwch Aelodau Cyngor Gwynedd at gylch gorchwyl y Pwyllgor.

## Aelodaeth

Cafodd Mr Gwilym Ellis-Evans ei ail-ethol yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau am y cyfnod hyd at Mai 2012.

Ymddiswyddodd y Cynghorydd Stephen Churchman o'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn gan iddo gael ei benodi i Fwrdd Cyngor Gwynedd ac felly ei wneud yn anghymwys i wasanaethu ar y Pwyllgor.  Penododd y Cyngor y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn ei le ym mis Mai 2011.

## Gollyngiadau

Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn darparu na all cynghorydd gymryd rhan mewn trafodaeth os oes ganddo/i 'fuddiant sy'n rhagfarnu'.  Serch hynny mae gan aelod yr hawl i wneud cais i'r Pwyllgor am ganiatâd i gymryd rhan er bod ganddo/i'r buddiant yma, h.y. gollyngiad.

Ystyriodd y Pwyllgor ddau gais am ollyngiad yn ystod y cyfnod yma.  Roedd y ddau ohonynt gan aelodau o Gyngor Gwynedd mewn cysylltiad â'r trafodaethau ar ad-drefnu ysgolion.  Gwrthodwyd un cais a rhoddwyd gollyngiad i'r ail aelod siarad ond nid i bleidleisio.

## Honiadau yn erbyn aelodau

Hysbyswyd y Pwyllgor o'r honiadau canlynol o dorri'r cod ymddygiad a wnaed wrth yr Ombwdsmon:

| Honiad o dorri'r Cod Ymddygiad | Penderfyniad yr Ombwdsmon |
|---|---|
| Dim rheswm dan y Cod | Dim ymchwiliad |
| Bwlio a dwyn anfri ar swydd y cynghorydd/yr awdurdod | Dim ymchwiliad |
| Dim rheswm dan y Cod | Dim ymchwiliad |
| Defnyddio safle fel aelod yn amhriodol | Dim ymchwiliad |
| Methiant i ddatgelu buddiant | Dim ymchwiliad |
| Diffyg parch at eraill; ymddwyn fel bwli neu harasio; dwyn anfri ar swydd y cynghorydd/yr awdurdod | Dim ymchwiliad |
| Gwneud cwyn blinderus a maleisus | Dim ymchwiliad |
| Dwyn anfri ar swydd y cynghorydd/yr awdurdod | Dim ymchwiliad |
| Defnyddio safle fel cynghorydd yn amhriodol i greu anfantais i eraill; dwyn anfri ar yr awdurdod. | Cyfeirio at y Pwyllgor Safonau am benderfyniad. Penderfynodd y Pwyllgor fod yr aelod wedi torri'r cod ac y dylai gael ei wahardd am gyfnod o fis. |

Yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2010 a 31 Mawrth 2011, adroddodd yr Ombwdsmon y bu gostyngiad o 21% yn nifer y cwynion am ymddygiad aelodau awdurdodau lleol ar draws Cymru. Roedd yn credu bod cyhoeddi ei ganllawiau ar y Cod Ymddygiad wedi cyfrannu'n gadarnhaol at y gostyngiad yn nifer y cwynion.

## Cynhadledd Pwyllgorau Safonau Cymru 2010

Mynychodd aelodau o'r Pwyllgor Gynhadledd Safonau Cymru 2010 - 'Rhoi'r theori ar waith', ar 14 Hydref 2010 yng Nghaerdydd. Cafwyd nifer o gyflwyniadau gan, ymysg eraill, Paul Hoey - Pennaeth Cysylltiadau Strategol 'Standards for England', Kate Berry - Swyddog Monitro Dinas Caerdydd, Jeff Cotterell - Cadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Môn, a Peter Tyndall - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Yn ogystal â hyn cafodd bawb y siawns i fynychu gweithdai ar bynciau megis Canllawiau ar y Cod Ymddygiad, Ymgysylltu â chyfryngau cymdeithasol newydd, Gwrandawiadau Pwyllgorau Safonau a Moeseg a Materion Cyngor Tref / Cymuned.

## Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru

Yn ystod y flwyddyn, sefydlwyd Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru, fel gall cynrychiolwyr o holl bwyllgorau safonau awdurdodau'r gogledd gyfarfod. Pwrpas y fforwm yw galluogi pwyllgorau safonau'r ardal i drafod a rhannu syniadau, arferion da ac adnoddau, a hefyd gyflwyno barn ac ymateb ar y cyd i faterion sy'n cael eu trafod ar lefel genedlaethol.

DRAFT

## Sylwadau ar gyfarfod llawn y Cyngor

Mynychodd tri aelod o'r Pwyllgor gyfarfod o'r Cyngor llawn ar 1 Mawrth 2011 er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n mynd ymlaen yng nghyfarfodydd yr awdurdod. Roedd yr aelodau wedi eu plesio â'r modd cafodd materion eu trafod gan Gynghorwyr yn y cyfarfod ond awgrymwyd hefyd ffyrdd y gellid hwyluso'r drefniadaeth o safbwynt y cyhoedd.

## Hyfforddiant ar y Cod ymddygiad

Penderfynodd y Pwyllgor ofyn i Gyngor Gwynedd ddatblygu hyfforddiant safonol a hawdd ei ddefnyddio ar y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau Cyngor Gwynedd a chynghorau cymuned a thref y sir.

Fel canlyniad, cynhaliwyd sesiwn hyfforddiant i Aelodau Cyngor Gwynedd ym mis Mai yn canolbwyntio ar fuddiannau personol o dan y Cod. Bydd y deunydd a ddatblygwyd ar gyfer y sesiwn hefyd yn cael ei ddefnyddio yn yr hyfforddiant sy'n cael ei ddatblygu yn genedlaethol ar hyn o bryd ar gyfer cynghorau tref a chymuned.

DRAFFT

**Pwyntiau Cyswllt Defnyddiol**

- **Dilys Phillips, Swyddog Monitro / Siôn Huws, Swyddog Priodoldeb**

  Cyngor Gwynedd, Stryd y Jel, Caernarfon, LL55 1SH,

  E-bost: SionH@gwynedd.gov.uk Ffôn: (01286) 679168 Gwefan: www.gwynedd.gov.uk
- **Ombwdmson Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru -** www.ombwdsmon-cymru.org.uk
- **Panel Dyfarnu Cymru -** www.paneldyfarnucymru.org.uk